

Cloch Dewi

Cyf 10: Rhif 1

Ionawr 2026

Croeso'n ôl i Dewi Sant!



**Y ficer a'i chyfoedion o gôr y chwedegau yn croesawu'r
Parch Elinor Talfan yn ôl i'r plwy' ar ddathliad y cynhaeaf**

Yn y rhifyn hwn

Eglwys Dewi Sant Caerdydd

eglwysdewisant.org.uk

 EglwysDewiSant

 @eglwysdewisant

 Eglwys Dewi Sant
Caerdydd

Llythyr y Ficer

Teithiau ymhell ac agos—
Gerallt Hughes

Cynnal a chadw—Rhys
Jones

Esther—Y Parch Athro
Lloyd Llewellyn-Jones

Tud

2 / 4

5

5

6-8

Cwis beiblaidd

Pobl y Plwyf

Arglwydd dysg i ni
weddïo

Ar gyfer eich
dyddiadur

Tud

9

10-11

12

Os am ragor o wybodaeth am
Eglwys Dewi Sant:

Ficer: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd

Ffôn: 029 2056 6001

E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com

Curad: Y Parchedig Athro Lloyd
Llewellyn-Jones

Llythyr y Ficer

Annwyl Gyfeillion,

Ysgrifennaf y llythyr hwn ar ôl dychwelyd o wasanaeth yng Nghadeirlan Llandaf i nodi 85 mlynedd ers iddi gael ei bomio a'i difrodi gan gyrch awyr ar 2 Ionawr 1941. Roedd Eglwys Gadeiriol Llandaf yn un o ddwy eglwys gadeiriol ym Mhrydain i ddioddef difrod sylweddol oherwydd y rhyfel. Eglwys Gadeiriol Coventry oedd y llall, ond mwy am hynny nes ymlaen. Yn ystod y gwasanaeth cawsom hanes y Tra Pharchedig David John Jones, Deon Llandaf ar y pryd. Ar y noson dyngedfennol honno, rhuthrodd y Deon o'r Deondy i'r Eglwys Gadeiriol i gwrdd â'r Clochydd er mwyn cyflawni eu dyletswydd fel swyddogion tân. Yn anffodus, fe fethodd y Deon â dod o hyd i'w helmed swyddogol, ac felly cymerodd ridyll ei wraig o'r gegin a'i wisgo am ei ben! Ni chafodd ei wraig ei rhidyll yn ôl. Disgynnodd bom yn y fynwent, a thrwy drugaredd ac o fewn trwch blewyn llwyddodd y Deon a'r Clochydd i ddianc yn ddianaf. Roedd y bom wedi dinistrio corff y Gadeirlan, ond diolch i'r drefn, roedd y gangell a Chapel Mair wedi eu harbed. Ar y Sul cyntaf wedi'r bomio cynhaliwyd gwasanaethau'r Sul yn y Deondy, ac yn ddiweddarach dechreuwyd cynnal y gwasanaethau yng Nghapel Mair. Felly y bu nes i'r Gadeirlan gael ei hadfer ar ôl y rhyfel. Ni orffennwyd y gwaith hwn tan 1957. Wrth gwrs, nid y Gadeirlan yn unig a ddioddefodd y noson honno. Cafodd 165 o bobl eu lladd a 427 eu hanafu'n ddifrifol yng Nghaerdydd. Mae'n hawdd inni anghofio gwir gost rhyfel yn nhreigl amser. Mae modd ailadeiladu ac adfer adeiladau, ond nid felly fywydau'r unigolion a gollwyd a'r rhai a greithiwyd.

Yn ystod y gwasanaeth hwn cofiais fod Eglwys Dewi Sant yn Howard Gardens wedi dioddef yr un anffawd â'r Gadeirlan 85 mlynedd yn ôl. Nid ym mis Ionawr y difrodwyd Eglwys Dewi Sant, ond mewn cyrch awyr ym mis Mawrth. Felly, fel yn achos Cadeirlan Llandaf, mae eleni yn garreg filltir yn ein hanes ninnau fel Eglwys. Mae cofio ein hanes yn bwysig; mae'n rhan o'n stori a'n hunaniaeth ac yn rhoi i ni wreiddiau dwfn yn hanes dinas Caerdydd.




Y difrod a ddioddefodd Eglwys Gadeiriol Llandaf 2 Ionawr 1941

Agorwyd Eglwys Dewi Sant yn Howard Gardens yn 1891 fel eglwys wedi'i neilltuo i wasanaethu Cymry Cymraeg y ddinas. Roedd hon yn eglwys hardd gyda digon o le i 500 o addolwyr ar y Sul. Un o'i nodweddion oedd bod ganddi fedyddfan arbennig fel y gwelir yng nghapeli'r Bedyddwyr er mwyn bedyddio oedolion trwy drochiad, arfer gweddol anghyffredin mewn eglwysi Anglicanaidd. Roedd hon yn un o'r ychydig eglwysi Anglicanaidd yng Nghymru â'r fath fedyddfan. Fe gostiodd dros £6,000 i'w hadeiladu, nid swm ansylweddol ar y pryd, ac fe godwyd yr arian trwy roddion hael gan unigolion, gweithgareddau codi arian gan eglwyswyr Cymraeg y ddinas, ynghyd â grantiau o'r coffrau canolog gan Gomisiynwyr Eglwys Loegr ar y pryd. Ynghyd ag adeilad yr eglwys ei hun, roedd neuadd a thŷ i gartrefu gofalwr a'i deulu ar yr un safle. Roedd pethau'n weddol lewyrchus yn Eglwys Dewi Sant, Howard Gardens. Yn 1935, pedair blynedd cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd, penodwyd Canon Rosser yn Ficer a daeth ef ag egni newydd i fywyd yr eglwys. Yn anffodus, bu tro ar fyd yn achos Eglwys Dewi Sant, yr eglwys a oedd ond yn 40mlwydd oed. Ar nos Lun 3 Mawrth hyd at oriau man bore 4 Mawrth 1941 dioddefodd Caerdydd gyrch awyr difrifol arall. Glaniodd bom ar Howard Gardens ac aeth Eglwys Dewi Sant ynghyd ag Ysgol Howard Gardens yn wenfflam. Yng ngeiriau un llygad-dyst a oedd ar ei ffordd i Ysbyty Glossop Road i helpu i symud y cleifion i fannau diogel:

Llythyr y Ficer

"We were told to proceed to help evacuate the patients. To our right, Dewi Sant and Howard Gardens School were burning, while before us Roath Rd Wesleyan Church was a furnace. We got to the Infirmary to help carry out patients, most of them frail and terrified, being carried out through the smoky darkened corridors to face the terrifying glare of three mighty fires".

Yn gweithio yn yr ysbyty y noson honno oedd un o blwyfolion Dewi Sant, sef y ddiweddar Eunice Iddles. Fe welodd hi'r tân yn dod o gyfeiriad Howard Gardens a meddylodd yn drist bod ei heglwys wedi ei chael hi. Difrodwyd adeilad yr eglwys a'i gynnwys bron yn gyfangwbl.



Dewi Sant, Howard Gardens 1891 - 1941

Ychydig iawn o eitemau o'r eglwys a oroesodd y noson honno, ac mae'r hyn a wnaeth oroesi, sef ambell gofrestr gydag olion ac arogl tân arnynt a llestri arian y Cymun, i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel mewn sêff yn yr eglwys bresennol.

Wrth gwrs, yn ystod y rhyfel doedd dim modd ystyried adfer yr adeilad. Rhygnodd y terfysg ymlaen am bedair blynedd hir arall. Yn ffodus, ni ddifrodwyd neuadd yr eglwys, ac felly yn y neuadd honno y bu'r ffyddloniaid yn cyfarfod i gynnal eu gwasanaethau o Sul i Sul. Mae dynnid o bobl heddiw yn cofio addoli yn y neuadd hon.

Ysgol Howard Gardens. Mae modd gweld



Eglwys Dewi Sant gyda'i thŵr yn y cefn.

Ar ôl y rhyfel daeth y gwaith o gyfri'r gost a dechrau ailadeiladu'r ddinas. Gydag adnoddau crai ac arian yn brin, penderfynodd yr awdurdodau nad oedd Eglwys Dewi Sant i gael ei hailadeiladu er mai dyna oedd gobaith a dymuniad y plwyfolion. Beth felly oedd dyfodol yr Eglwys Gymraeg yng Nghaerdydd? Parhau i ddefnyddio'r neuadd? Chwilio am adeilad addas arall? Rhoi'r gorau i'r achos? Doedd yr olaf ddim yn opsiwn! Roedd adeiladu Eglwys Dewi Sant yn y lle cyntaf wedi bod yn frwydr hir a chaled i eglwyswyr Cymraeg y Ddinas, ac roedd parhau i addoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn hawl rhy werthfawr i'w golli er gwaethaf y ffaith nad oedd ganddynt adeilad eglwys.



Howard Gardens ar ôl y bomio.

Llythyr y Ficer

Addoli yn y Gymraeg oedd yn bwysig, nid yr adeilad. Trwy ddycnwch y plwyfolion ac arweiniad cadarn Canon Rosser daeth haul ar fryn pan gynigiwyd iddynt adeilad eglwys arall, sef Eglwys St Andreas yng nghanol y ddinas. Roedd yr eglwys hon ar fin cau ei drysau am byth am fod poblogaeth y plwyf wedi gostwng yn sylweddol wedi'r rhyfel a'r tai crand o'i hamgylch yn cael eu troi'n swyddfeydd. Nid pawb oedd yn hapus â'r cynnig hwn. Yr oedd nifer yn dal gafael yn y gobaith y byddai'r hen Ddewi Sant yn cael ei hailadeiladu, ac ar ben hynny yr oedd angen gwaith ar eglwys St Andreas. O ba le oedd yr arian yn mynd i ddod? Wedi hir aros a byw trwy bymtheng mlynedd o ansicrwydd, yn addoli mewn neuadd heb unrhyw gyfleusterau a fyddai'n hwyluso gwaith a chenhadaeth yr eglwys, cafodd Eglwys St Andreas ei hailgysegru yn Eglwys Dewi Sant ar 1 Tachwedd 1956.

Mae'r gweddill, fel maen nhw'n dweud, yn hanes ac yr ydym ni heddiw yn rhan o'r hanes hwnnw. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod anodd hwn mae'n wyrth, mewn ffordd, nad oedd y gynulleidfa wedi gwasgaru. Mae pymtheng mlynedd yn gyfnod hir i fod heb adeilad addas ond mae'r ffaith bod ein heglwys wedi goroesi'r cyfnod hwn yn dangos yn glir arweiniad cadarn a dymuniad diwyro'r ffyddloniaid i sicrhau Eglwys Gymraeg Anglicanaidd yng Nghaerdydd er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael addoli Duw a chlywed neges Efengyl gras yn eu mamiaith. Hefyd, a da inni gofio hyn, wrth symud o Howard Gardens i Gilgant Sant Andreas, symudodd Dewi Sant o gyrion y ddinas i'w chanol, dinas a oedd bellach yn brifddinas. Yn ein hanes fel eglwys fe welwn ni y ffydd Gristiongol ar waith, o Ddydd Gwener y Groglith a'r Groes a bomio'r eglwys yn Howard Gardens, hyd at yr Atgyfodiad, ac agor Eglwys Dewi Sant yng Nghilgant Sant Andreas. Do, fe ddaeth bore'r trydydd dydd yn ein hanes fel eglwys.

Deon Coventry oedd yn pregethu yn y gwasanaeth y bûm i ynddo yng Nghadeirlan Llandaf ar ddechrau mis Ionawr eleni. Adroddodd yr hanes am ymateb ei ragflaenydd wrth weld ei gadeirlan yn cael ei dinistrio gan fomiau. Y Sul canlynol penderfynodd y Deon gynnal gwasanaeth yng nghanol y rwbel a'r adfeilion ac fe ddywedodd yn ddiweniaith,

"yr ydym wedi dioddef yma heddiw siom a phoen y Groes, ond mae hynny'n golygu un peth yn unig. Mae'n golygu ein bod ddiwrnod yn nes at Ddydd yr Atgyfodiad". Allan o'r rwbel daeth mwy na chadeirlan newydd sbon i Coventry. Fe sefydlodd y Deon "Cymuned Croes yr Hoelion" sydd hyd heddiw yn gweithio dros gymod yn ein byd toredig. Mae gan y Gymuned hon dair egwyddor sy'n arwain ei gweithgareddau sef:

1. Iachau clwyfau hanes
2. Dysgu byw gyda gwahaniaeth a dathlu amrywiaeth
3. Adeiladu diwylliant o gyfiawnder a heddwch

Yn ystod y gwasanaeth daeth Undeb Mamau Esgobaeth Llandaf yn bartneriaid swyddogol â chymuned Croes yr Hoelion.



Croes yr Hoelion a wnaethpwyd o hoelion yn dyddio yn ôl i'r Canoloesoedd a ddarganfuwyd yng nghanol rwbel adfeilion Cadeirlan Coventry.

Wrth inni ddechrau ein taith trwy 2026 gyda chymaint o ansicrwydd a phegynu gwleidyddol a bwrw bai ar eraill am broblemau yn ein cymdeithas, boed i ni fyfrio ar y ffordd y gallwn ni fel eglwys ac fel unigolion fyw egwyddorion Cymuned Croes yr Hoelion – egwyddorion â eginodd ac a dyfodd o rwbel ac adfeilion canlyniadau rhyfel y gorffennol.

Gyda phob bendith,
Dyfrig.



Teithiau ymhell ac agos

Gerallt Hughes



Bûm ar fy ngwyliau yn Awstria ym mis Medi, ac ar un o'r teithiau cerdded yn y mynyddoedd uwchben tref Mayrhofen, daethom ar draws golygfa arbennig, sef y Granatkapella. Dyma ddyfyniad gan y Deon Niederwieser o'r gwasanaeth i'w gysegru i Sant Engelbert Kolland ar yr 22ain o Fedi 2013: "Each of us is like a garnet that must first be polished to reach its full brilliance. The question is whether we allow ourselves to be polished by HIM."

Dyluniwyd y Capel gan y pensaer Mario Botta o'r Swistir wedi'i ysbrydoli gan ffurf grisial dodecahedron Garnet, sef gemwaith yr ardal, sy'n cysylltu'r tirlun a'r awyr a'i adlewyrchu yn y llyn cyfagos, fel y gwelir yn y lluniau. Gellir cael mwy o hanes Capel ar eu gwefan: <https://www.granatkapelle.com/en/the-chapel/about-the-garnet-chapel.html>

Ar ddiwedd ein taith, aethom i'r caffi am goffi a Strudel, a chael ein diddanu gan grŵp o gerddorion lleol; byddai'n Cyfarwyddwr Cerdd 'lodel leu' wedi teimlo'n gartrefol iawn yn eu plith!

Cynnal a chadw

Rhys Jones

Gwaith i'r to uwchben y grisiau i'r llofft:

Yn anffodus mae'r to uwchben y grisiau i'r stafell llofft wedi bod yn gollwng dŵr am gyfnod hir ac mae hyn wedi golygu bod darn o'r nenfwd wedi disgyn.

Mae'r Penseiri wedi paratoi manyleb ar gyfer y gwaith ac wedi cyflwyno hwn i gwmnïau priodol er mwyn cael amcan bris ar gyfer y gwaith atgyweirio. Cyflwynwyd y manylion i 5 cwmni. Derbyniwyd 3 amcan bris ac yn dilyn ystyriaeth manwl o'r cynigion roedd y Penseiri yn hollol sicr fod pris D T Watkins a'i fab o £19,692.60 plus VAT yn dderbyniol.

Hawleb (Faculty)

Er mwyn gwneud y gwaith uchod, roedd angen hawleb arnom ac felly cyflwynwyd cais i Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth. Cafodd ei ystyried ganddynt yn eu cyfarfod ar 23 Medi 2025. Erbyn hyn mae gennym yr Hawleb ar gyfer y gwaith.

Cais Grant i Cronfa "Cherish" National Churches Trust

Penderfynwyd gan yr Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo i wneud cais i'r Gronfa yma ar gyfer grant o £10,000 tuag at y gwaith uchod. Cyflwynwyd y cais i'r gronfa ar 11 Awst 2025.

Ar 27 Tachwedd derbyniwyd llythyr oddi wrth National Churches Trust yn dweud bod ein cais wedi bod yn llwyddiannus a byddem yn derbyn grant o £9,943. Bydd rhaid i ni hawlio'r grant cyn 13 Mai 2026 Bydd rhaid i ni fel eglwys dalu'r gweddill - £9,749.60

Gwaith y coed o gwmpas yr eglwys 2025

Yn mis Awst 2025 gofynnwyd i gwmni Steve Ambler a'i Feibion Cyf i dorri'r tyfiant Epigormig o gwmpas y coed a hefyd cynnal archwiliad o'r coed.

Rhoddwyd y gwaith yma mewn llaw am gost o £1,920.00 a derbyniwyd adroddiad am gyflwr y coed am £900.00

Tynodd yr adroddiad ein sylw at waith ychwanegol oedd ei angen ar y coed. Er mwyn diogelu'r eglwys rhoddwyd y gwaith yma mewn llaw:-

Torri brigau marw uwchben 50mm, profion canfod pydredd, archwiliad dringo o 4 coeden a darparu adroddiad wedi'i ddiweddarau, am gost o £2118.

Wedi derbyn yr adroddiad yn dilyn yr archwiliad uchod, darganfuwyd fod coeden rhif 15 mewn cyflwr peryglus a bod angen ei ddymchwel ar frys. Roedd Cyngor y Ddinas wedi cytuno â hyn wedi derbyn yr adroddiadau. Felly penderfynwyd i wneud hyn ar unwaith er mwyn diogelu'r eglwys, yn enwedig gyda'r nifer o bobl sy'n tramwyo'r Cilgant ac yn parcio yno.

Cost dymchwel y goeden oedd - £1,800.00

Mae'r gwaith uchod i gyd wedi bod yn gostus i'r eglwys a'r gobaith yw bydd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn barod i rannu'r gost yma gyda ni drwy eu Cronfa Argyfwng. Bydd cais yn cael ei gyflwyno yn fuan.

Esther

Y Parch Athro Lloyd Llewellyn-Jones


Mae Esther yn stori ryfeddol, hyd yn oed os yw'r llyfr wedi bod yn achos penbleth i lawer o ddarllenwyr y Beibl. Esther yw'r stori am ferch lldewig a ddaeth yn frenhines Persia ac a achubodd ei phobl drwy rwystro cynllwyn i ladd yr lldewon i gyd. Mae'n stori anhygoel gyda llawer o droeon annisgwyl ynddi, ond mae'n dangos i ni hefyd fod Duw yn gallu ein gosod ni mewn sefyllfaoedd arbennig am reswm penodol a'n defnyddio ni i gyflawni ei fwriadau.

Mae Esther yn stori am ddewrder, cynllwyn, a pheryglon, ond yn bennaf, mae'n stori am Dduw yn gweithio drwy weithredoedd a bywydau ei bobl i drefnu'r achubiaeth fwyaf anhygoel. Mae'r llyfr yn adrodd hanes lldewon a oedd mewn perygl o ddiflannu'n llwyr, ond trwy ddylanwad Esther cawson nhw heddwch a'u tir yn ôl.

Rwyf wedi bod yn gyfarwydd â Llyfr Esther ers fy mhlentyndod yng Nghefn Cribwr, lle, o wersi Ysgol Sul yng nghapel Calvary, dysgais i am 'y frenhines a achubodd ei phobl'. Dechreuais ysgrifennu am Esther ym 2002 pan ddefnyddiais Esther i drafod statws eunuchiaid yn llys hynafol Persia. Rwyf wedi bod yn ysgrifennu am hen Bersia ers hynny, ac mae Esther wedi ymddangos, mewn rhyw fodd neu'i gilydd ym mron pob un o'm papurau ymchwil ar gyfnod yr Achaemeniaid.

Mae'r testun Beiblaidd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi. Mae'n cynnwys llawer o wybodaeth am fywyd llys brenhinol Persia yn ogystal â thema ehangach ymerodraeth Persia. I mi, mae Llyfr Esther wedi bod yn ddogfen hynafol a defnyddiol iawn; mae'n codi llawer o gwestiynau, a bob amser, yn fy swyno.

Yn wir, ni chafodd Llyfr Esther ei le yn y Beibl Hebraeg na'r Beibl Cristnogol tan bedwar can mlynedd ar ôl Crist. Yn sicr, o safbwynt lldewig, mae'r fersiwn Hebraeg o Esther yn ôd iawn o ystyried nad oes cyfeiriadau at ddefodau lldewig: y cyfamod, y Torah, na'r Deml. Ar ben hynny, mae arwres lldewig y llyfr yn briod â brenin paganaidd er ei bod hi'n cuddio'r ffaith ei bod yn lldewes



Wynebodd Esther a'r lldewon fygythiadau a llawer o sefyllfaoedd drwg (mae rhai yn dreisgar iawn) felly rydyn ni'n iawn i ddisgwyl sôn am...weddi, o leiaf! Mae hyd yn oed y gyfraith lldewig ynglŷn â bwyd yn cael ei thorri pan rannodd Esther fwyd gyda phaganiaid mewn cyfres o wleddodd moethus.

Fodd bynnag, roedd rhai ysgolheigion lldewig wrth eu boddau â'r llyfr. Roedd Rabi Shimon ben Lakish, er enghraifft, yn credu pan fydd y Meseia yn dychwelyd, dim ond dau lyfr fyddai'n goroesi ei

ddychweliad, y Torah a Llyfr Esther. Yn Dura-Europos yn Syria yn y drydedd ganrif ar ôl Christ, mae paentiad y tu mewn i'r synagog leol yn darlunio Esther, Mordecai (cefnder Esther sy'n gweithio yn llywodraeth y brenin), a brenin Persia ei hun, mewn lle o anrhydedd, yn union gyferbyn â llun o'r Tabernacl.

Wedi'r cyfan, mae Esther yn rhoi gwreiddiau hanesyddol Pwrim inni, gŵyl lldewig yw hon sy'n hynod o boblogaidd a ddethlir ym mis Adar yn yr hen galendr Babilonaidd, sy'n cyfateb â mis Mawrth – Ebrill, ac fel ag y mae, mae'r llyfr yn ymwneud yn bennaf ag adrodd stori sy'n rhoi cyd-destun hanesyddol i Ŵyl Pwrim.

Esther



*Gwledd y Brenin Ahasferus (Esther pennod 1)
o Feibl Alba G15fed*

Mae'r stori yn rhoi'r lleoliad hanesyddol i Pwrim inni. Hyd at heddiw, mae Iddewon yn adrodd y llyfr cyfan ddwywaith yn ystod yr ŵyl ei hun ac mae dramâu, adloniant cerddorol a gemau i cyd-fynd â'r stori. Mae hyn wedi sicrhau lle canolog i Esther yn ffydd a hunaniaeth yr Iddewon.

Mewn cyferbyniad, nid yw Cristnogion yn adnabod Llyfr Esther yn dda iawn; yn y llythiadur tair blynedd, un darlenniad yn unig a ddaw o Lyfr Esther. Pam? Efallai oherwydd yn ystod y Diwygiad Protestannaidd dywedodd Martin Luther, *'I am so hostile to this book of Esther that I could wish that it did not exist at all; for it Judaizes too greatly and has much pagan impiety.'*

Nid ydym yn gwybod pwy oedd awdur Esther. Nid oes unrhyw gliwiau yn y llyfr ei hun ac nid oes unrhyw draddodiadau, Iddewig na Christnogol chwaith, i'n helpu. Mae'r awdur yn ysgrifennu yn y trydydd person ac nid yw'n cymryd unrhyw 'gymeriad' fel y cyfryw. Ac eto, mae'n adrodd y straeon yn fendigedig. Mae wedi'i ysgrifennu mewn Hebraeg Feiblaidd hwyr ac mae'n ddoniol iawn ar adegau. Mae'n rhannu llawer sy'n gyffredin â stori Joseff yn Genesis. Mae'n debyg bod y ddwy stori wedi gael eu hysgrifennu tua'r un cyfnod. Mae'r testun yn llawn o eiriau Persiaidd ac enwau Persiaidd ffug.

Roedd gan yr awdur anhysbys wybodaeth dda iawn o'r byd Persiaidd ac yn enwedig o'r llys brenhinol yn Susa. Mae hyn yn awgrymu bod yr awdur yn Iddew cyfoethog, efallai wedi'i eni yn Susa a bod ganddo wybodaeth dda am fywyd elitaidd ym Mhersia. Nid yw'r awdur byth yn crybwyll Israel, Jerwsalem, na'r gaethglud. Mae hyn yn awgrymu ei fod yn hapus i fod yn rhan o'r gymuned Diaspora.

Mae Llyfr Esther yn dyddio i'r cyfnod pedwar cant cyn Crist. Mae'n gyfarwydd iawn â chyfraith, arferion ac iaith Persia am ei fod wedi'i gyfansoddi yn oes yr Achaemeniaid. Brenin Persia, yn ôl y testun Hebraeg yw Ahuaseurus, neu Xerxes, mewn hen Roeg. Mae gan y llyfr leoliad hanesyddol. Ond nid llyfr hanes mo Esther ac nid yw'n cynnwys unrhyw hanes 'go iawn'. Mae'n stori chwareus a ysbrydolwyd gan chwedlau Mesopotamiaidd ac Iranaidd, yn ogystal â dos trwm o lôn werinol. Mae hyn yn esbonio absenoldeb unrhyw gyfeiriad at Dduw neu gredoau Iddewig.

Ar y gorau, rhamant Bersaidd yw Llyfr Esther – rhamant gyda thipyn bach o hanes – neu, "historical romance" os mynnwch chi. Mae llawer o broblemau yn perthyn i lyfr Esther. Mae'r ffaith nad yw Duw yn chwarae unrhyw ran yn y stori yn anodd i'w ddeall. I'r Iddewon, mae stori

Esther

Esther yn rhoi'r "raison d'être" iddyn nhw ar gyfer cadw gŵyl Pwrim. Ond beth amdanom ni, fel Cristnogion? Beth mae Llyfr Esther yn ei olygu i Gristnogion?

Felly dyma fy nhri sylw:

Yn gyntaf,

Mae Esther yn ein dysgu am sofraniaeth, neu "sovereignty." Duw sy'n rheoli – hyd yn oed pan nad yw'n cael ei gydnabod. Mae Duw yn gweithio trwy Esther, Mordecai, a hyd yn oed Xerxes a Haman.

Yn ail,

Mae Duw wrth ei fodd yn gweithio trwy bobl annisgwyl. Iddewes dlawd yw Esther. Mae hi'n neb. Yn sydyn mae hi'n dod yn frenhines Persia. A chan mai hi yw'r frenhines, mae ganddi'r gallu i achub ei phobl rhag distryw. Cyd-ddigwyddiad? Dydw i ddim yn meddwl hynny. I mi, nid oes unrhyw gyd-ddigwyddiad ym mywyd: mae Duw yn gwybod pob llinell, pob stori, pob gair, pob gweithred cyn i ni ei wneud.


Yn drydydd,

Mae Esther yn ein dysgu ni i weithredu'n ddi-ofn. Mae hi'n ein dysgu ni i weithio er lles pobl Dduw.

Mae llyfr Esther yn rhoi paralel ysbrydol pwerus iawn inni: Y dylem i gyd fod yn gweithio i achub pobl rhag marwolaeth. Mae Duw yn ystyried ei bobl yn arbennig iddo (gweler Deuteronomium 7:6). Yr hyn y mae llawer ohonom yn methu â'i ddeall yw, er bod cenedl Israel yn werthfawr iddo, ei fod mewn gwirionedd eisiau i bob un gael ei achub (gweler 1 Timotheus 2:4). Dylai ymdrech Esther i achub yr Iddewon ein hysgogi ni Gristnogion i weithio er iachawdwriaeth pawb. Dylem oll anelu at ddilyn Crist, gan bregethu'r Efengyl sy'n achub pawb rhag pechod a marwolaeth.



Mosaig o Esther yn Eglwys Hagia Maria, Jerwsalem.



Clawr cyfrol ysgolheigaidd Y Parch Athro Lloyd Llewellyn-Jones

Dathlu Gŵyl Ddewi yn EDS

Dydd Sul 1 Mawrth 2026

**10.30am Y Cymun Bendigaidd ar gân ac Ysgol Sul
Pregethwr Gwadd:**

**Y Parchedig Ganon Andrew Sully
(Arweinydd Ardal Gweinidogaeth
Gorllewin Caerdydd)**

Cinio i ddilyn yn y neuadd


**Gwahoddir deunydd ar gyfer y
rhifyn nesaf erbyn Ebrill 30ain
2026. Cysylltwch â'r golygydd
Wyn Mears ar
wyn@wynmears.com**

Cwis beiblaidd



Faint mor gyfarwydd ydych chi â chynnwys y Beibl? Dyma ugain cwestiwn bach i chi ei fwynhau dros baned!

1. Sawl llyfr sydd yn yr Hen Destament?
2. Beth yw enw pedwerydd llyfr y Beibl?
3. Beth oedd enw gwraig Isaac?
4. Beth oedd enw chwaer Moses?
5. Ar ba fynydd y derbyniodd Moses y Deg Gorchymyn?
6. Pwy oedd wedi twyllo Samson a thorri ei wallt hir?
7. Beth oedd swydd Samuel?
8. Pwy oedd tad y Brenin Dafydd?
9. Pa offeryn cerddorol oedd y Brenin Dafydd yn hoff o'i ganu?
10. Beth yw rhif y Salm sydd â 176 o adnodau iddi?
11. Pa broffwyd a gafodd ei daflu i waelod ffynnon?
12. Pa Efengyl yw'r fyrraf?
13. I ba wlad yr oedd yn rhaid i Mair, Joseff a'r plentyn Iesu ffoi iddi oherwydd y Brenin Herod?
14. Beth oedd oedran Iesu pan gollodd ei rieni ef yn deml?
15. Pan dderbyniodd Iesu wahoddiad i ddarllen yn y Synagog yn Nasareth, o ba sgrôl y darllenodd?
16. Beth oedd enw'r disgybl a ddaeth o hyd i'r pum torth o fara a'r ddau bysgodyn?
17. Beth oedd enw'r disgybl a gymerodd le Jwdas Iscariot?
18. Beth oedd enw Paul cyn ei dröedigaeth?
19. Ym mha lythyr y mae Paul yn ysgrifennu am Onesimus?
20. Ar ba ynys oedd Ioan pan ysgrifennodd Lyfr y Datguddiad?



Atebion yn y rhifyn nesaf o Gloch Dewi.

Pobl y plwyf

Dathliad Nadolig yr Ysgol Sul



Atgofion Barbara Morgan o bererindota i Walsingham





**Ymweliad ag arddangosfa'r Beibl
Cymraeg yn y Senedd**



**Gweinyddiad o'r Cymun yng ngwasanaeth
PORVOO yn EDS**

Dathliad y Cynhaeaf



Paratoi trylwyr yn y neuadd



**Blodau'r
allor**



Mwynhau cinio'r cynhaeaf!



**Ymweliad a'r Panto
eto eleni!**

**Cerddorion o'r
Iwcrain yn ystod
gwasanaeth I
nodi'r Holomodor
yn EDS**



Arglwydd dysg i ni weddio



Litani Cymod Cymuned Croes yr Hoelion Eglwys Gadeiriol Coventry



Y mae pawb wedi pechu ac wedi syrthio'n fyr o ogoniant Duw.

Am y casineb sy'n gwahanu cenedl oddi wrth genedl, hil oddi wrth hil, a'r hyn sy'n gwahanu pobl o haenau cymdeithasol gwahanol oddi wrth ei gilydd.

O Dad, maddau.

Am y trachwant a'r blys sydd rhwng pobloedd a chenhedloedd a'r awydd am feddiannu'r hyn nad ydynt yn ei berchnogi eisoes.

O Dad, maddau.

Am y trachwant sy'n ecsploetio gwaith dwylo bodau dynol ac sy'n creu anialwch ar y ddaear.

O Dad, maddau.

Am yr eiddigedd sydd ynom sy'n ddi-hid am hapusrwydd a lles pobl eraill.

O Dad, maddau.

Am ein hesgeulustod o'r gri'r anghenus ac o drueni'r rhai sydd mewn caethiwed, y digartref, a ffoaduriaid.

O Dad, maddau.

Am y balchder sy'n ein tywys i ymddiried ynom ni ein hunain ac nid yn Nuw.

O Dad, maddau.

Bydded i Dduw cariad ein tynnu yn ôl ato ei hun, maddau i ni ein pechodau, a'n sicrhau ni o'i gariad yn Iesu Grist ein Harglwydd.

'Byddwch yn garedig i'ch gilydd, yn dyner, gan faddau i'ch gilydd, fel y maddeuodd Crist i chi'. **Amen.**

Ar gyfer eich dyddiadur yn 2026

Ionawr

Dydd Sadwrn, 17 Ionawr
10.30am - Coffi a Chlonc

Nos Fercher, 21 Ionawr
7.00pm - Gwasanaeth Wythnos Weddi dros Undod
Cristnogol – Capel Minny Street

Dydd Sadwrn, 24 Ionawr
9.30am – Côr Cantemus - Dewch i Ganu Requiem Mozart

Chwefror

Nos Lun, 2 Chwefror
6.15pm – Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo

Dydd Mawrth, 3 Chwefror
1.00pm Cyngerdd Awr Ginio – Irène Duval (Ffidil)

Nos Lun, 9 Chwefror
7.00pm – Cyfarfod Cenhadu a Bugeilio

Dydd Gwener, 13 Chwefror
1.15pm – Datganiad Organ Elen Rees

Nos Lun, 16 Chwefror 7.00pm
Cyngor Plwyfol Eglwysig dros Zoom

Dydd Mercher y Lludw, 18 Chwefror
10.30am – Y Cymun Bendigaid gydag arnodiad lludw

8.00pm – Gwasanaeth ar Ddechrau'r Garawys dros Zoom

Nos Iau, 19 Chwefror
6.00pm Noson Cymdeithasol Cinio Giovenni's Park Place

Dydd Sadwrn, 21 Chwefror
10.30am – Coffi a Chlonc

Mawrth

Dydd Sul, 1 Mawrth
10.30am – Dathlu Gŵyl Ddewi Pregethwr Gwadd:
Y Parchedig Ganon Andrew Sully
Cinio Gŵyl Ddewi i ddilyn y gwasanaeth

Dydd Mawrth, 3 Mawrth
1.00pm – Cyngerdd Awr Ginio Triawd Llinynnol 360

Dydd Sadwrn, 21 Mawrth
10.30am – Coffi a Chlonc

Sul y Blodau, 29 Mawrth
10.30am – Y Cymun Bendigaid a Bendithio'r Palmwydd
6.00pm – Yr Hwylol Weddi

Ebrill

Dydd Gwener y Groglith, 3 Ebrill
2.00pm Gwasanaeth Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd
Pregethwr Gwadd: Esgob Llandaf.

Dydd y Pasg – 5 Ebrill
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwylol Weddi a Phregeth

Dydd Gwener, 10 Ebrill 1.15pm
Datganiad Organ Jed Hughes, Santes y Forwyn Fair,
Wotton-under-Edge